# Cymorth Iechyd y Genfaint Menter Moch Cymru yn "amhrisiadwy" i fusnes ffermio moch ffyniannus

**Menter Moch Cymru**
Developing the pig sector in Wales
Datblygu'r sector moch yng Nghymru

Mae cymorth iechyd y genfaint a gynigir gan Menter Moch Cymru yn helpu busnes ffermio moch o Orllewin Morgannwg i gyflawni ei nodau iechyd a lles moch.

Mae cymorth iechyd y genfaint a gynigir gan Menter Moch Cymru yn helpu busnes ffermio moch o Orllewin Morgannwg i gyflawni ei nodau iechyd a lles moch.

Mae Suzy Williams yn cyfaddef bod ganddi "obsesiwn"' am iechyd a lles y genfaint o foch y mae hi'n ei ffermio gyda'i gŵr, Martyn, a'i meibion, Logan a Ben, gan fabwysiadu ymagwedd 'safon aur' at y ddau.

Roedd y pâr wedi bod yn gweithio mewn swyddi y tu allan i fyd ffermio pan gawsant eu cyflwyniad cyntaf i fagu moch.

Erbyn hyn mae ganddynt 100 o foch Cymreig ac maent yn gwerthu cig trwy eu busnes, Tŷ Siriol Welsh Pork.

O'r eiliad y gwnaethant sefydlu'r genfaint, mae'r cwpl wedi rhoi pwyslais mawr ar statws iechyd eu moch. Mae Cynllun Iechyd y Genfaint blynyddol, a ariennir yn llawn gan Menter Moch Cymru ac a ddarperir gan filfeddyg fferm y teulu Williams, The George Vet Group, wedi chwarae rhan bwysig yn hynny.

Cynllunio iechyd rheolaidd a gweithredol yw'r ffordd fwyaf cost-effeithiol o leihau clefydau a gwella lles, meddai.

Roedd adnodd Menter Moch Cymru, y maent wedi cael mynediad ato ers tair blynedd, yn fwy gwerthfawr nag erioed yn ystod y pandemig. Bryd hynny, diflannodd eu siopau gwerthu yn y sector gwasanaethau bwyd dros nos ac roedd eu cyllideb dan bwysau.

**"Cawsom dawelwch meddwl ar ôl gwybod bod y cyllid ar gyfer cynllun iechyd y genfaint wedi'i gynnwys," mae Suzy yn cyfaddef.**



**"Mae gennym berthynas dda iawn gyda'n milfeddyg fferm felly mae wedi bod yn wych bod cynllun Menter Moch Cymru yn caniatáu i ni weithio gyda hi oherwydd ei bod eisoes yn adnabod ein cenfaint"**

Mae gweminarau hyfforddi a gynhaliwyd gan Menter Moch Cymru wedi bod yn ffynhonnell werthfawr o wybodaeth.

Maent wedi mynychu 26 o sesiynau ar amrywiaeth o bynciau. Mae'r rhain nid yn unig wedi cynyddu gwybodaeth y ddau am iechyd moch, hwsmonaeth a rheolaeth ond maent wedi rhoi llwyfan iddynt ofyn cwestiynau.

**"Maen nhw'n lleoedd diogel i godi ymholiadau am bethau nad ydych chi'n hyderus yn eu cylch, pethau y gallwn i fod yn ansicr i roi fy llaw i fyny i ofyn cwestiwn amdanynt pe bawn i mewn cyfarfod mewn ystafell sy'n llawn pobl,"** meddai Suzy.

Roedd hyfforddiant ymarferol a ddarparwyd gan Menter Moch Cymru ar gigyddiaeth a phrosesu wedi helpu'r pâr i ddatblygu'r busnes.

Roedd y gigyddiaeth yn cael ei wneud yn flaenorol yn y lladd-dy lle mae'r moch yn cael eu prosesu ond ers derbyn yr hyfforddiant yn 2017, mae Martyn yn gwneud hyn gyda chymorth, yn fwy diweddar, gan Logan, sy'n 19 oed.

**"Rydym bob amser wedi gwneud ein selsig a'n bacwn ein hunain ond gwnaethom newid i wneud popeth yn fewnol gan ei fod yn rhoi mwy o opsiynau i ni ar yr hyn a wnawn gyda'r carcas, i ychwanegu gwerth ato,"** esbonia Suzy.

"Gallwn sicrhau tarddiad ac ansawdd o'r dechrau i'r diwedd."

Mae costau hefyd yn cael eu lleihau gan nad oes angen iddynt dalu am y gwasanaeth hwn mwyach.

Mae'r cwpl wrthi'n ceisio sicrhau grant o £750 gan Menter Moch Cymru ar gyfer cymorth marchnata gan fod llawer o'u gwerthiannau'n cael eu cynhyrchu drwy eu siop ar-lein a'u gwasanaeth cludiant lleol.

Fel rhan o hyn, maent wedi datblygu cynllun busnes hefyd.

**"'Capten Clipfwrdd' yw Martyn, mae ganddo obsesiwn â thaenlenni, ond mae help gyda chynllun busnes wedi bod yn ddefnyddiol iawn,"** meddai Suzy.

Mae ffermio moch wedi bod yn "broses ddysgu enfawr" ond yn hynod foddhaol, mae'n ychwanegu.